

Iaith Fyw : Iaith Byw

Mis Rhagfyr 2010 oedd un o'r pwysica' erioed yn hanes yr iaith Gymraeg. Fe gafodd Mesur y Gymraeg ei basio a dogfen ymgynghori ar Strategaeth Iaith newydd ei chyhoeddi. Yn awr, mae yna gyfle i holl bobl Cymru gyfrannu at y gwaith a rhoi barn.



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Neges gan y Gweinidog Treftadaeth

Mae'r Gymraeg yn rhan allweddol o hunaniaeth ddiwylliannol a chymeriad Cymru. Mae'n rhan bwysig o'r hyn sy'n ein diffinio ni fel cenedl – yn ein cymunedau, yn ein perthynas â ffrindiau a theuluoedd ac fel unigolion.

Dangosodd Cyfrifiad 2001 fod nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg wedi cynyddu, ond er hynny mae sefyllfa'r iaith yn fregus.

Er bod bron i bawb sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn siarad yr iaith bob dydd, mae angen rhagor o gyfleoedd arnyn nhw i ddefnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd

Ochr yn ochr â hyn mae'r iaith yn dal i grebachu mewn ardaloedd ble mae'r Gymraeg yn brif iaith y gymuned. Mae llawer iawn o waith i'w wneud o hyd, felly, ond mae'r sefyllfa ymhell o fod yn anobeithiol.

Mae Llywodraeth Cymru'n Un wedi cyhoeddi strategaeth iaith drafft, sef *Iaith Fyw : Iaith Byw*, ar gyfer adfywio ac atgyfnerthu'r Gymraeg.



“MAE MODD I BAWB
GYFRANNU AT GREU'R
FERSIWN TERFYNOL”

Ni fydd y strategaeth hon yn bodoli mewn gwagle wrth gwrs. Fel Llywodraeth rydym ni eisoes wedi creu Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg sydd wedi derbyn croeso sylweddol. Yn ogystal a hyn, mae seiliau a fframwaith wedi ei osod ar gyfer y Coleg Cymraeg – y Coleg Ffederal.

Mi fydd *Iaith Fyw : Iaith Byw*, ochr yn ochr a'r Strategaeth Addysg, yn anelu i gynyddu nifer y bobl ledled Cymru sy'n gallu siarad Cymraeg ac yn dewis gwneud hynny. Mae'r strategaeth drafft yn cydnabod pwysigrwydd gweithio yn y gymuned, boed hynny yn y Gymru wledig neu yn y Gymru drefol, mewn ffordd sy'n

adlewyrchu anghenion arbennig ardaloedd arbennig.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cymeradwyo Mesur y Gymraeg sy'n datgan bod gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru. Bydd swydd Comisiynydd annibynnol yn cael ei sefydlu fydd â phwerau i hybu a hwylyso defnyddio'r Gymraeg.

Bydd dyletswyddau yn cael eu gosod ar gannoedd o gyrff yng Nghymru i ddarparu gwasanaeth Cymraeg sy'n cydymffurfio â safonau i'w cymeradwyo gan y Cynulliad. Mi fyddwn hefyd yn sefydlu Cyngor Partneriaeth y Gymraeg i gynghori a chyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'u strategaeth iaith Gymraeg.

Ond er cystal y ddeddfwriaeth newydd, mae angen fframwaith sy'n cysylltu dyfodol y Gymraeg gyda hynt a helynt pobl ar lawr gwlad, boed hynny mewn dinasoedd Saesneg eu hiaith yn bennaf lle mae mwy a mwy o ysgolion Cymraeg, neu mewn ardaloedd gwledig sy'n wynebu heriau gwahanol.

Y strategaeth iaith fydd yn darparu'r fframwaith hwnnw ac mae modd i bawb gynnig sylwadau ar y drafft er mwyn cyfrannu at greu'r fersiwn terfynol o'r strategaeth.

Alun Ffred Jones

Iaith dan bwysau

Y bwriad: Sefydlu Ardaloedd Hybu'r Gymraeg mewn ardaloedd lle mae'r iaith wedi bod yn gry' ond mewn peryg.

Iaith ar gynnydd

Mae mwy o bobl a phlant yn medru'r Gymraeg yn ein trefi a'n dinasoedd. O'u tynnu at ei gilydd, bydd yr iaith yn cryfhau ymhellach.

Yn y gwaith a'r cartref

Dyma ddau le allweddol – rhaid hybu'r Gymraeg ymhlith teuluoedd ifanc a rhoi cyfle i'w defnyddio yn y man gwaith.

Statws a dyletswyddau

Mae Mesur y Gymraeg yn datgan bod gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru ac mae'n darparu fframwaith a fydd yn galluogi rhoi dyletswyddau ar gyrff o ran cynnig gwasanaethau yn Gymraeg.

RHOWCH EICH BARN ERBYN 4 CHWFROR 2011

Y Gymraeg – ynghanol ein

Mae teitl y ddogfen ymgynghori ar y Strategaeth laith newydd yn dweud y cyfan – laith Fyw, laith Byw. Er mwyn gwneud yn siŵr bod y Gymraeg yn ffynnu rhaid

iddi fod yn iaith bywyd bob dydd i unigolion, teuluoedd a chymunedau. Dyna pam fod pwyslais y Llywodraeth ar gael y plant a'r bobl sy'n medru'r iaith

i'w defnyddio hi, trwy gynnig cyfleoedd a chefnogaeth. Mae'n bwysig cynyddu'r nifer sy'n gallu siarad yr iaith; mae'r un mor bwysig ei bod hi'n iaith bob dydd i gymaint ag sy'n

bosib o'r rheiny.
• Mae'n bwysig mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn draddodiadol gryf, ond lle mae bellach dan fygythiad.
• Mae'n bwysig yn y trefi a'r

laith ar gynnydd – Trefi a Dinasoedd Dwyieithog

Mae'r iaith yn ennill tir yn rhai o'r trefi a'r dinasoedd mawr – fel Caerdydd, Abertawe a Wrecsam. Yno, mae angen adeiladu ar seiliau'r hyn sydd ar gael.

Gyda nifer sylweddol o bobl yn siarad Cymraeg ond yn rhan fach o'r boblogaeth gyfan, mae angen ffyrdd gwahanol o ddatblygu gweithgarwch trwy gyfrwng yr iaith.

Gan weithio gyda'r Mentrau laith a phartneriaid eraill fydd y cynllun Trefi a Dinasoedd Dwyieithog yn datblygu rhwydweithiau i dynnu siaradwyr Cymraeg at ei gilydd ac yn crythau'r rhai sy'n bod eisoes, gan gynnwys rhai ar-lein.

Wynebu her y ddinas

Mae Sian Lewis, Prif Swyddog Menter Caerdydd, wedi gweld sefyllfa'r iaith yn y brifddinas yn newid yn llwyr ers pan oedd hi'n berson ifanc yno.

Bellach, mae siaradwyr Cymraeg yn llifo i'r ddinas i fyw a gweithio ac mae bron 20% o blant Caerdydd yn cael addysg trwy'r Gymraeg.

Ond mae hynny hefyd yn creu sialens newydd – yr union sialens sydd y tu cefn i syniad y Strategaeth laith o Ddinasoedd a Threfi Dwyieithog.

“Y peth pwysig yw dod o hyd i'r bobl sy'n symud i mewn i Gaerdydd a rhoi gwybod iddyn nhw bod yna weithgareddau a gwasanaethau Cymraeg ar gael,” meddai Sian. “Mae'n rhaid gwneud yn siŵr nad yw'r bobl hyn – na'r bobl ifanc sy'n mynd trwy'r system addysg – yn colli'r cyfle i fyw eu bywydau'n ddwyieithog.

“Mae yna tua 100 o gymdeithasu yng Nghaerdydd yn

gweithredu trwy'r Gymraeg – gan gynnwys corau di-ri' a chlybiau chwaraeon – ac mae'n bwysig bod pobol yn cael gwybod amdany'n nhw.”

Mae'r Fenter eisoes yn ddyfeisgar yn gwneud hynny – mae'r gwasanaeth ar y We, sef e-chlysur, eisoes yn cyrraedd 3,500 o bobl ac mae'r Fenter yn gweithio gyda Chyngor y Ddinas a chyrrff eraill i gyrraedd staff Cymraeg sy'n gweithio yno.

Maen nhw hefyd yn cynnal clybiau sy'n rhoi cyfle i wneud pob math o bethau difyr trwy'r Gymraeg – o ioga i samba a choginio! Y nod – creu rhwydweithiau diddordeb i dynnu siaradwyr yr iaith at ei gilydd.



Alex Jones, y cyflwynydd teledu, yn un o weithgareddau Menter Caerdydd

laith dan bwysau – Ardaloedd Hybu'r Gymraeg

Un o brif argymhellion y Strategaeth yw datblygu 'Ardaloedd Hybu'r Gymraeg' mewn ardaloedd gwledig ble mae canran uchel o bobl yn siarad Cymraeg ond lle mae sefyllfa'r iaith dan fygythiad.

Y bwriad yw newid hynny gan weithio'n ddwys gyda phartneriaid o bob math i wneud yn siŵr bod yr iaith yn rhan o bob agwedd o fywyd yr ardal.

Mae'r rhesymau am y dirywiad yn gymhleth, felly fe fydd rhaid i'r holl asiantaethau a chyrrff gydweithio ar draws nifer o feysydd, o dai fforddiadwy i'r economi, er enghraifft, i drosglwyddo'r Gymraeg o genhedlaeth i genhedlaeth a wynebu effaith symud poblogaeth, tra'n trefnu a hyrwyddo mwy o weithgareddau trwy'r Gymraeg.

Cyn ei bod hi'n rhy hwyr ...

Ardal y glo carreg, cartref chwaraewyr rygbi fel Gareth Edwards neu ddiddanwyr fel Ryan Davies ... mae ardal Aman Tawe yn gyfoethog o ran ei threftadaeth Gymreig a Chymraeg. Serch hynny mae'r Gymraeg erbyn hyn bron â pheidio â bod yn iaith fyw i'r gymdeithas.

Dyna pam fod cynlluniau ar droed eisoes i wneud Dyffryn Aman a gogledd Cwm Tawe yn ardal weithredu arbennig o ran yr iaith Gymraeg ... y gyntaf o sawl ardal y mae'r Llywodraeth am eu gweld trwy Gymru.

Mae'r ardal hefyd yn rhannu nifer o'r problemau sydd yn gyffredin i ardaloedd eraill yng Nghymru lle mae nifer y siaradwyr Cymraeg wedi dirywio – yr economi ar i lawr, pobl ifanc yn gadael, pobl newydd yn symud i mewn.

Rhan o'r ateb yn ôl y Strategaeth laith yw tynnu cyrff a mudiadau at ei gilydd – y tri chyngor sir sydd yn yr ardal, Llywodraeth y Cynulliad, y mentrau iaith, mudiadau a chymdeithasau a grwpiau gweithredu er mwyn ceisio mynd i'r afael a'r sefyllfa ar y cyd.

Yng ngeiriau Bwrdd yr Iaith ... tair sir, dwy iaith, un bartneriaeth.

bywydau

dinasoedd lle mae to newydd o siaradwyr Cymraeg – mae angen eu tynnu at ei gilydd i gryfhau ymhellach.

- Mae'n bwysig mewn teuluoedd, wrth roi'r Gymraeg

i'n plant a'u helpu i'w defnyddio.

- Mae'n bwysig yn y man gwaith – mae angen i'r iaith fod ymhobman a chael ei gweld yn iaith fodern, fyw.

Yr iaith yn y cartref – rhagor o dwf

Fe fydd gweithgor yn dod at ei gilydd i ddatblygu cynllun newydd i hyrwyddo'r iaith ymhlith teuluoedd lle mae plant rhwng 0 a 5 oed.

Fe fydd yn dod â gwaith nifer o gyrrf at ei gilydd gan adeiladu ar waith prosiect Twf sy'n annog rhieni newydd a darpar rieni i wneud yn siŵr bod eu plant yn dysgu a chlywed y Gymraeg.

Mae gweithgareddau eraill yn cynnwys gwaith Mudiad Ysgolion Meithrin, cynlluniau cymdeithasol fel Dechrau'n Deg a chynnyrch plant S4C.

Cara ac Aibhla yn dangos pam

Mae Cara ac Aibhla Griffiths yn enghraifft berffaith o'r hyn y mae'r Strategaeth iaith yn gobeithio'i weld gyda theuluoedd.

Mae'r efeilliaid 5 oed o Benygroes, Dyffryn Aman, yn siarad Cymraeg a Saesneg yn rhugl ac yn troi'n rhywydd o un iaith i'r llall.

Er hynny, un o

Iwerddon yw eu mam, Ann, a Saesneg yw ei hiaith hi ac mae wedi rhyfeddu wrth weld y ddwy fach yn tyfu'n gwbl ddwyieithog.



Y teulu'n sgwrsio

“Dyna'r amser gorau i ddysgu iaith,” meddai. “Er nid dysgu y maen nhw ... maen nhw jyst yn gwybod. Mae'n fantais fawr iddyn nhw, yn awr ac yn y dyfodol.”

Wrth wneud lluniau, maen nhw'n dweud y lliwiau yn Saesneg wrth eu mam ac yn Gymraeg wrth eu tad, Hywel, sy'n siaradwr Cymraeg. Iddo ef, meddai, y peth cwbl naturiol oedd siarad Cymraeg gyda'r plant o'r dechrau – allai e ddim meddwl gwneud yn wahanol.

RHOWCH EICH BARN

Mae'r ddogfen ymgynghorol yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer yr iaith a'r hyn y byddwn yn ei wneud, gyda'n partneriaid, i gynyddu nifer y bobl sy'n siarad yr iaith ac yn ei defnyddio. Rydym yn croesawu sylwadau.

Gallwch gael gafaél ar y ddogfen ymgynghorol lawn fan hyn:

Gwefan: www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

Sut i ymateb

Cyflwynwch eich sylwadau erbyn 04 Chwefror 2011 ar un o'r ffurfiau a ganlyn:

E-bost: strategaethiaith@cymru.gsi.gov.uk

Post: Tîm Strategaeth yr Iaith Gymraeg, Uned Iaith Gymraeg, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

Y Strategaeth – camau pwysig eraill

Oed allweddol – pobl ifanc

Mae llawer o argymhellion y Strategaeth yn ymwneud â phobl ifanc. Mae'r syniadau'n cynnwys lleadaenu'r defnydd o gynllun arloesol i hybu defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol a chreu gweithgareddau amrywiol yn y gymuned i bobl ifanc rhwng 9 ac 13 oed.

Gofal – gydol oes

Yn ogystal â sicrhau bod rhagor o gyfleoedd i rieni gael gofal i'w plant trwy'r Gymraeg, bydd fframwaith strategol yn cael ei greu i gryfhau dwyieithrwydd yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Llywodraeth – dangos y ffordd

Bydd pob rhan o'r Llywodraeth a phob corff sy'n cael ei noddi gan y Llywodraeth yn gorod gosod y Gymraeg ynghanol eu gwaith a, lle bo hynny'n briodol, bydd grantiau a chytundebau i wneud gwaith i'r Llywodraeth yn cynnwys amodau ynglŷn â'r Gymraeg,



Lansio'r ddogfen yngynghorol – gyda hwyf ar y stryd

Yr iaith yn y gwaith – annog a dangos esiampl

Mae swyddfeydd newydd y Llywodraeth yn Aberystwyth a Llandudno'n enghreifftiau o ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn y man gwaith.

Ochr yn ochr â hynny, bydd y Strategaeth yn annog busnesau preifat i wneud mwy a mwy o ddefnydd o'r Gymraeg.

Erbyn 2015, y nod yw cael 1,500 o fusnesau i fabwysiadu polisi gwirfoddol sy'n rhoi lle amlwg i'r iaith.

Fe fydd cynrychiolwyr busnes, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn rhan o Weithgor Rhanddeiliaid i ddatblygu'r fframwaith strategol ym maes gwaith ymhellach.

Yr heddlu'n herio

Os yw'r heddlu'n edrych yn fwy ifanc bob dydd yng Nogledd Cymru, maen nhw hefyd yn llawer mwy tebyg o'ch cyfarch yn Gymraeg!

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn cynnig esiampl i bawb yng nghyswllt cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Erbyn hyn, er mwyn cael gwaith

neu wella eich swydd o fewn Heddlu'r Gogledd, mae'n rhaid dangos cwrteisi iaith, o leiaf – sef y gallu i ddweud enwau llefydd yn iawn ac i allu cychwyn sgwrs a chyfarch eraill yn Gymraeg.

“Mae gallu'r Gymraeg yn sgil ochr yn ochr â sgiliau eraill,” meddai Meic Raymant, Pennaeth Gwasanaethau Cymraeg yr Heddlu. “Ac mae'n gwella safon plismona yn yr ardal.”

Ond mae'r polisi'n mynd llawer

pellach. Mae gan y ddwy iaith yr un statws – a'r nod, cyn belled â phosib, yw creu corff dwyieithog.

Mae hynny'n golygu fod staff yn cael eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg wrth wneud eu gwaith ac wrth ymwneud ag eraill.

Mae'r polisi'n dechrau ar y brig, gyda'r Prif Gwnstabl sydd wrthi'n dysgu'r iaith – ac mae'r gwaith yn parhau, gan gynnig heriau newydd bob dydd.

Mesur y Gymraeg – cam hanesyddol arall

Mae Mesur y Gymraeg a gafodd ei basio gan y Cynulliad ym mis Rhagfyr yn cyflawni tri o addeuwion Llywodraeth Cymru'n Un – ac mae'n gyfraniad pwysig at y nod o adfywio ac atgyfnerthu'r Gymraeg dros y blynyddoedd nesaf.

Mae'r Mesur yn datgan bod gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru, yn cydnabod fod gan bobl yr hawl i dderbyn gwasanaethau drwy'r Gymraeg ac yn creu Comisiynydd Iaith yn bencampwr ac eiriolwr i'r iaith.

Dyma'r Mesur iaith cyntaf i gael ei basio ers 1993 a'r cyntaf i gael ei greu gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae'n adeiladu ar Ddeddf 1993 ac yn cyflwyno newidiadau pwysig.

Un o nodau'r Mesur yw gwella darpariaeth gwasanaethau Cymraeg drwy symud o Gynlluniau Iaith, a drafodir yn unigol, i osod safonau clir ar gyrrff neu sectorau cyfan sy'n dod o fewn cwrmpas y Mesur. Fe fydd hyn yn cael gwared â'r baich gweinyddol o drafod a datblygu cynlluniau iaith, er mwyn galluogi cyrrff i ganolbwyntio ar wella gwasanaethau Cymraeg.

Trwy osod safonau ar gyrrff bydd mwy o eglurder i siaradwyr Cymraeg o ran y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn trwy'r Gymraeg gan wahanol gyrrff.

Bydd y Mesur yn creu:

- Safonau cyflenwi gwasanaethau, er mwyn gosod dyletswyddau ar sefydliadau i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Safonau llunio polisi i osod dyletswyddau ar sefydliadau i ystyried effaith eu penderfyniadau polisi ar yr iaith er mwyn creu mwy o gyfleoedd i'r cyhoedd ddefnyddio'r Gymraeg.

- Safonau gweithredu i osod dyletswyddau ar sefydliadau i hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau a'u busnes. Bydd hyn yn galluogi'r Comisiynydd i osod dyletswyddau ar sefydliadau ynghylch defnyddio'r Gymraeg yn eu gweithle.

- Safonau hybu i osod dyletswyddau ar Lywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol i hyrwyddo a hwyluso gwneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg.



Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog Treftadaeth yn lansio'r Mesur

Yn ogystal â hyn, bydd y Mesur yn galluogi'r Comisiynydd i osod dyletswyddau ar ystod ehangach o sefydliadau na Ddeddf 1993, gan gynnwys darparwyr gwasanaethau ffôn, bysiau a threnau – a chyflenwyr nwy a thrydan. Bydd gosod dyletswyddau ar y sefydliadau hyn, sy'n rhan o fywyd bob dydd yng Nghymru, yn gwneud llawer i gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith a chynyddu ei statws.

Mae'r Mesur yn caniatáu i'r Comisiynydd sicrhau bod cyrrff yn cydymffurfio â safonau ac yn darparu gwasanaethau. Mae hyn yn golygu y bydd y Comisiynydd yn gallu penderfynu ar y ffordd fwyaf effeithiol i wneud yn siŵr bod cyrrff yn cadw at y safonau, gan eu cosbi os bydd raid.

Mae hefyd fodd i bobl gwyno i'r Comisiynydd os ydyn nhw'n teimlo nad yw corff sy'n dod o dan y Mesur wedi cydymffurfio â'r safonau.

Tribiwnlys

Bydd y Comisiynydd hefyd yn gallu ymchwilio'n swyddogol i achosion honedig o ymyrryd â rhyddid unigolion yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd – yn y man gwaith, er enghraifft.

Yn ogystal â'r Comisiynydd, bydd Tribiwnlys y Gymraeg yn cael ei sefydlu i ddelio ag apelau yn erbyn gosod safonau – a'u gorfodi. Bydd y Tribiwnlys hefyd yn gallu delio ag apelau gan y cyhoedd mewn perthynas â phenderfyniadau'r Comisiynydd ynghylch cwynion am fethu â chydymffurfio â safonau.

Yn ystod y broses o graffu ar y Mesur, mae'r Llywodraeth wedi trafod yn gyson, gydag arbenigwyr, cyrrff, cwmnïau a phobl Cymru. Bydd hynny'n parhau o dan y Mesur, drwy sefydlu Cyngor Partneriaeth y Gymraeg a fydd yn rhoi cyngor a chyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'u strategaeth iaith.

Y llwybr at ffyniant

Neges Meri Huws, Cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Fel y dywedodd y Gweinidog dros Dreftadaeth, does dim modd gwadu fod sefyllfa'r Gymraeg yn fregus o hyd, ac mae hi'n debygol o barhau i fod yn fregus am y degawdau nesaf.

Os ydym am sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fod yn iaith fyw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, mae yna sialens fawr yn ein hwynebu. Mae cyhoeddi'r ddogfen ymgynghorol hon yn gam pwysig a chadarnhaol ymlaen, ac yn ein galluogi i fynd i'r afael â'r sialens honno.

Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi

gweld ewyllys da cynyddol tuag at yr iaith, ac mae'r Strategaeth yn adeiladu ar yr ewyllys da hwn ac yn gosod y llwybr i sicrhau y bydd y Gymraeg yn blodeuo yn y dyfodol.

Does ond angen i chi gerdded ar hyd unrhyw stryd fawr yng Nghymru er mwyn gweld sut mae busnesau wedi manteisio ar yr ewyllys da tuag at yr iaith – mae siop John Lewis yng Nghaerdydd yn un enghraifft wych o gwmni mawr yn cefnogi'r Gymraeg.

Ac nid dim ond busnesau mawr sy'n gweld manteision cynnig gwasanaeth dwyieithog; mae yna gannoedd o fusnesau – mawr a bach – wedi llunio polisiâu iaith Cymraeg o'u gwirfodd, ac mae'r Strategaeth yn gosod targed clir i gynyddu'r niferoedd yma ymhellach.

Mae'r Strategaeth hefyd yn cydnabod y



shifft yn y boblogaeth: diboblogi pobl ifanc yng nghefn gwlad, y mewnlifiad sy'n niweidio'r Gymraeg yn ei chadarnleoedd a hefyd yr egin newydd o Gymry Cymraeg proffesiynol sy'n ymgartrefu yn ein trefi a'n dinasoedd.

O dalu sylw i'r shifft yma, ac adnabod ffyrdd o weithio yn y cymunedau dan sylw gall

y Strategaeth sicrhau y bydd y Gymraeg yn ffynnu fel iaith hyfyw yn y gwahanol ardaloedd - yn y wlad ac yn y dref.

O fynd ati i annog trosglwyddo iaith yn y cartref, creu cyfleoedd i bobl ifanc fwynhau trwy gyfrwng y Gymraeg, creu mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio eu sgiliau iaith yn y gweithle, a phrif-ffrdio'r Gymraeg yng ngwaith y Trydydd Sector, rwy'n hyderus y bydd y Gymraeg yn dod yn rhan fwyfwy annatod a chanolog ym mywyd o ddydd i ddydd trigolion Cymru.